# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 25 Chwefror 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: A Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiola Democrataidd (GW), Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW), Pennaeth Cyllid Ac Asedau (Paul McGrady), Pennaeth Adnoddau Dynol Strategol (LA), Rheolwr Prosiect (NE Hub) (JE), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Stuart Davies, Martyn Holland, Win Mullen-James, Merfyn Parry a/ac Cheryl Williams

## CROESO

Estynnodd y Cadeirydd groeso i gyfarfod Cyngor llawn o Gyngor Sir Ddinbych.

Yn y fan hon, derbyniodd y Cadeirydd ddeiseb gan y Cynghorydd Huw Williams, ar ran plant a rhieni ysgol Llanbedr.

Aeth y Cadeirydd ymlaen i dalu teyrnged i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CC: Moderneiddio a Lles), Sally Ellis sy'n ymddeol ddiwedd mis Chwefror 2014. Dyma bedwar arweinydd y grwpiau gwleidyddol a'r Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yn talu teyrnged i'r CC: Moderneiddio a Lles. Gwnaed gyflwyniad a chafwyd araith o ddiolch gan y CC: Moderneiddio a Lles.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Geraint Lloyd Williams gysylltiad personol ar gyfer Eitem 9, Polisïau Cam-drin Domestig a Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol ar gyfer eitem 10, Polisi Ymddeol Hyblyg.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Dosbarthwyd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a gynhaliwyd ar gyfer y Cyngor gan y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 22 Ionawr 2014 a 18 Chwefror 2014 cyn y cyfarfod.

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau o "Marsh Tracks" yn y Rhyl a pha mor anhygoel oedd y cyfleuster hwn. Estynnodd y Cadeirydd ddiolch i'r holl swyddogion a staff sy'n ymwneud â'r cyfleuster.

Trefnwyd cystadleuaeth ar gyfer plant ysgol gynradd i ddylunio baner sy’n nodi ystyr Dydd Gŵyl Dewi iddyn nhw. Gofynnwyd iddynt farddoni cerdd hefyd. Roedd y ddau a oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth wedi mynychu Neuadd y Sir gyda'u rhieni. Bu’r faner yn chwifio tan ar ôl Dydd Gŵyl Dewi, ac ar ôl hynny’n cael ei gyflwyno i enillydd y gystadleuaeth. Cafodd y Gerdd ei hargraffu a'i fframio a'i chyflwyno i'r enillydd.

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd ac y dylid nodi sylwadau’r Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2014.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Sandilands ei fod wedi datgan cysylltiad personol yn Eitem 7, Cyllideb ar gyfer 2014/15, ond nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn y cofnodion. Byddai'r cywiriad yn cael ei nodi.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2014 fel cofnod cywir.*

## 6 CYMERADWYO ACHOS BUSNES AR GYFER PROSIECT YSGOL NEWYDD Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg ei adroddiad (copi'n amgaeedig) yn hysbysu'r Cabinet o'r sefyllfa bresennol gyda’r Cyngor yn cyflwyno'r Achos Busnes Terfynol i Lywodraeth Cymru ar gyfer Ysgol Newydd y Rhyl.

Yn y fan hon, dangosodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (PCaChA) gyflwyniad o gynllun yr Ysgol Newydd yn y Rhyl. Nid oedd y fideo wedi’i gwblhau eto ond cafodd yr Aelodau syniad o’r cynllun a'r dyluniad.

Byddai prosiect Ysgol Newydd Y Rhyl yn golygu ysgol gymunedol a fyddai'n darparu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl ar gyfer hyd at 1200 o ddisgyblion mewn addysg prif ffrwd yn ogystal â chartref i tua 45 o ddisgyblion o Ysgol Tir Morfa, yr ysgol arbennig gymunedol yn y Rhyl.

Cafodd yr Achos Busnes ei atodi i'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol). Byddai'r Achos Busnes yn ceisio am gyllid o 50% gan Lywodraeth Cymru. Byddai hynny'n golygu fod angen i Gyngor Sir Ddinbych ddod o hyd i £12,293,050. Byddai'r swm yn cael ei gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol cyffredinol a'r Cynllun Cyfalaf.

Ar ôl derbyn canlyniad arolwg cyflwr adeilad, cytunwyd y byddai'r Ganolfan Hamdden presennol yn parhau i gael ei ddefnyddio i ddysgu Addysg Gorfforol i ddisgyblion Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Tir Morfa. Byddai hynny'n golygu bod modd canolbwyntio ar wella cyfleusterau presennol yn hytrach nag adeiladu ased arall.

Bu ymgynghori helaeth gyda chymunedau Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Tir Morfa yn natblygiad y prosiect. Roedd hynny wedi cynnwys nifer o gyfarfodydd ymgynghori yn y gymdogaeth i drafod y cynlluniau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer adeiladau'r ysgol newydd. Mae Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl a Chyngor Tref y Rhyl hefyd wedi cyfrannu at gynnydd y prosiect.

Dyma'r Aelodau'n diolch i'r Aelod Arweiniol dros Addysg, y PCaChA a'i thîm, am eu holl waith caled.

***ARGYMELL*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Achos Busnes ar gyfer Ysgol Newydd Y Rhyl cyn i Lywodraeth Cymru wneud y penderfyniad terfynol.*

## 7 TRETH Y CYNGOR 2014/15 A MATERION CYSYLLTIEDIG.

Cyflwynwyd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2014/2015.

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar y 27 Ionawr 2014, roedd yn angenrheidiol i'r Cyngor basio penderfyniadau pellach mewn ffurf penodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a'i faterion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

Yn dilyn trafodaethau, cytunodd yr Aelodau ar yr argymhellion yn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD*** *fod:*

*(i) Y Cyngor Sir fel yr Awdurdod Bilio yn ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref / Cymuned a datgan lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/2015.*

*(ii) Y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/2015, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y*

*Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel adran 3 Atodiad A.*

*(iii) Y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/2015, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel adran 4 Atodiad A.*

*(iv) Y symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/2015 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau wedi eu dangos yn Atodiad C.*

*(v) Lefel y disgownt ar gyfer Dosbarth A, B ac C fel a ragnodir o dan y Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael eu gosod ar sero ar gyfer blynyddoedd ariannol 2014/2015, 2015/2016 a 2016/2017 sef tymor y Cyngor hwn gyda'r cafeat, a bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i Ddeddfwriaeth neu amodau lleol.*

**8 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS (DSRT) 2014/15 A DANGOSYDDION DARBODUS 2014/15 I 2016/17**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r Aelodau i gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2014/2015 a'r Dangosyddion Darbodus 2014/2015 i 2016/2017.

Mae Rheoli Trysorlys yn ymwneud ag edrych ar ôl symiau sylweddol o arian parod y Cyngor sydd wedi bod yn rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor er mwyn sicrhau enillion rhesymol ar fuddsoddiadau a bod dyled yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn ddoeth.

Mabwysiadodd y Cyngor y Cod Ymarfer diwygiedig SSCCCh ar RhT (Tachwedd 2011) yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2012. Mae'n ofyniad y Cod hwnnw i gymeradwyo DSRhT pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol a allai weld buddsoddiad sylweddol o ran cyflawni ei flaenoriaethau dros y pum mlynedd nesaf. Roedd yn hanfodol bod gan y Cyngor swyddogaeth Rheoli Trysorlys cadarn ac effeithiol sy'n sail i'r buddsoddiad ym mhob gweithgaredd arall.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor oedd:

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch)
- Gwneud yn siŵr y gellid cael mynediad at yr arian pan fo angen (hylifedd), a
- gwneud yn siŵr bod cyfradd dychwelyd da (arenillion).

Dywedodd y Cynghorydd Eryl Williams bod yna weledigaeth lle gellir cychwyn proses yn y flwyddyn neu ddwy nesaf i Sir Ddinbych adeiladu tai eu hunain. Cynigiodd y Cynghorydd Williams fod Fforwm yn cael ei sefydlu i alluogi trafodaeth manwl ar y mater hwn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai angen gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru cyn cychwyn y Fforwm.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn cymeradwyo:*

*(i) Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys*
*(ii) Lleoliad y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2014/2015, 2015/2016 a 2016/2017*
*(iii) Y Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw, a*
*(iv) Gofyn i bob un o'r saith Aelod Cynulliad ar gyfer Sir Ddinbych lobïo dros newid teg i'r system cyllid Cyfrif Refeniw Tai sy'n sicrhau nad yw awdurdodau lleol sydd wedi cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru yn cael eu cosbi o ran y symiau y gallent eu buddsoddi yn y dyfodol.*

## 9 POLISI CAM-DRIN DOMESTIG A PHOLISI GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Barbara Smith, y Polisi Cam-drin Domestig a'r Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Polisi Cam-drin Domestig

Comisiynodd Llywodraeth Cymru'r Prosiect 10,000 o Fywydau Mwy Diogel i sicrhau bod pob darparwr gwasanaeth a sefydliad perthnasol yn gallu adnabod arwyddion cam-drin domestig ac yn gallu cefnogi unigolion sy'n dioddef o gam-drin domestig yn effeithiol.

Cododd yr Aelodau y mater bod y polisi ddim yn cynnwys aelodau gwrywaidd o staff. Roedd ystadegau ar gael a oedd yn nodi fod 1 o bob 6 o ddynion yn dioddef trais gan eu partneriaid. Awgrymwyd a chytunwyd y dylid cynnwys dynion hefyd yn y Polisi.

Mae'r polisi yn nodi sut y mae Cyngor Sir Ddinbych yn condemnio unrhyw fath o gam-drin domestig, trais yn erbyn merched a thrais rhywiol ac yn cydnabod ei bod yn drosedd ac yn annerbyniol.

Mae'r polisi yn manylu ar gyfrifoldeb Rheolwyr, AD a gweithwyr eraill, ynghyd â pha gymorth y gall y dioddefydd/ goroeswr ei ddisgwyl gan y Cyngor. Roedd yn darparu arweiniad clir i Reolwyr ar yr hyn y dylent ei wneud os bydd gweithiwr yn datgelu eu bod wedi bod yn destun cam-drin domestig, trais neu drais rhywiol.

Rhan ddefnyddiol iawn o'r ddogfen hon yw'r cymorth ymarferol y gall y Cyngor ei gynnig i weithiwr a fydd yn sicrhau bod y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gallu gweithio mewn gweithle diogel sy'n eu cefnogi.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gall cael gafael ar gyngor cyfreithiol i'r dioddefydd / goroesydd fod yn broses hirfaith a'r gobaith ymysg yr Aelodau oedd bod AD yn cymryd barn drugarog ar Aelod staff sy'n gofyn am amser i ffwrdd i fynychu apwyntiadau â Chyfreithiwr neu Lys.

- Gan ei fod yn fater problemus a sensitif, gallai fod yn anodd i aelod staff ddatgelu manylion am eu bywyd preifat. Disgwylir i Reolwyr ymgymryd â hyfforddiant eang. Awgrymwyd y dylai person penodedig fod ar waith, lle byddai gweithwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i siarad â nhw. Cytunwyd y byddai rhaid edrych i mewn ar un pwynt cyswllt er nad oedd angen cynnwys hynny yn y Polisi, byddai'n dod yn rhan o'r hyfforddiant a ddarperir.
- Yr ac dros Alyn a Glannau Dyfrdwy, roedd Carl Sargeant yn gwahodd awdurdodau lleol i fod yn gefnogwyr corfforaethol o'r ymgyrch rhuban gwyn. Cytunwyd y byddai gwybodaeth ynglŷn â'r Ymgyrch Rhuban Gwyn yn cael ei rannu gydag Arweinyddion y Grŵp ac ni fyddai angen adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir.

<u>Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd</u>

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) ac mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu i adlewyrchu'r newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r uno hwn. Mae'r polisi newydd yn cydymffurfio â Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

***PENDERFYNWYD –****fod y Cyngor Sir yn:-*

- *Mabwysiadu'r Polisi Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac yn cytuno cyflwyno hyfforddiant priodol ar y Polisi i'r holl Reolwyr o fewn yr awdurdod*
- *Cytuno mewn egwyddor i gefnogi'r Ymgyrch Rhuban Gwyn yn ddibynnol fod swyddogion yn ymchwilio i'r ymrwymiadau sydd eu hangen ar y Cyngor fel cefnogwr corfforaethol o'r ymgyrch ac adrodd yn ôl i Arweinwyr y Grŵp, a*
- *Mabwysiadu'r Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd*

**10 POLISI YMDDEOL HYBLYG**

Fe gyflwynodd yr Aelod Arweiniol ar Foderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Barbara Smith, yr adroddiad Ymddeol Hyblyg (wedi'i ddosbarthu'n flaenorol).

Mae gan Aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yr hawl i wneud cais am ymddeoliad hyblyg. Mae hyn yn golygu y gall gweithiwr dros 55 oed wneud cais i newid natur a dwyster eu gwaith a derbyn eu pensiwn tra'n parhau i weithio a derbyn cyflog. Pwrpas ymddeoliad hyblyg yw hwyluso'r symudiad graddol tuag at ymddeoliad.

Mae trafodaethau ar Bolisi Ymddeoliad Hyblyg wedi bod yn mynd ymlaen ers dros 12 mis. Mae'r Undebau Llafur a Rheolwyr yn cytuno ar argymhelliad a) bod gostyngiad lleiaf mewn oriau neu gyflog o 20% yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl dod i gytundeb ar elfen b) ynglŷn ag uchafswm hyd amser rhwng caniatáu ymddeoliad hyblyg ac ymddeol.

Mae'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol (CBYLl) wedi ystyried y cynigion yn ffurfiol ar dri achlysur ac er gwaethaf trafodaethau manwl ni fu'n bosibl dod i gytundeb gyda chynrychiolwyr yr Undebau Llafur. Cytunodd cyfarfod diwethaf y CBYLl i gyfeirio'r

cynigion i'r Cyngor gydag argymhelliad i fabwysiadu er gwaethaf y methiant hwn i gytuno.

Cynigiodd y Cynghorydd Colin Hughes gynnig y dylai'r dyddiad ymddeol diffiniol ddim fod yn fwy na 36 mis o’r dyddiad ymddeoliad hyblyg gyda 12 mis pellach mewn amgylchiadau eithriadol. Eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Joan Butterfield

Cynhaliwyd pleidlais i aelodau gytuno neu anghytuno i’r diwygiad. Collwyd y bleidlais ac ni chafodd y diwygiad ei weithredu.

Fe bleidleisiodd yr Aelodau ar yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad, a

***PHENDERFYNWYD** bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu’r canlynol:*

*(a) Cyflwyno gostyngiad lleiaf – dylai’r gostyngiad hwn gyfateb i leiafswm o 20% o ostyngiad naill ai mewn oriau neu dâl.*
*(b) Cyflwyno cynllun ymddeol gyda'r gweithiwr a fydd yn rhoi dyddiad pendant lle bydd y gweithiwr yn ymddeol yn llwyr. Dylai’r dyddiad ymddeol pendant fod o fewn 24 mis i ddyddiad yr ymddeoliad hyblyg gyda’r dewis i adolygu hwn ar ddiwedd y cyfnod ac ymestyn am 12 mis arall mewn amgylchiadau eithriadol os yw hyn yn bodloni anghenion y busnes a'r unigolyn.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**11 PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU (PTGGGC)**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, y Cynghorydd David Smith, yr adroddiad Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol fod yr adroddiad PTGGGC wedi’i gyflwyno’n flaenorol i’r Cabinet, cyfarfod Briffio'r Cyngor a'r Pwyllgor Craffu. Cytunwyd ar yr argymhellion ym mhob cyfarfod.

Cafwyd trafodaeth, a,

***PHENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn*

*(a) cymeradwyo dyfarnu statws Cynigydd o Ddewis i Wheelabrator Technologies Inc (WTI) oherwydd, yn dilyn trafodaethau gyda'r WTI, bod eu Cais am Dendr Terfynol yn werth am arian ar gyfer y bartneriaeth ac, yn dilyn gwerthusiad ariannol, cyfreithiol a thechnegol manwl o’u cais, bod y bartneriaeth yn fodlon ar y cydbwysedd risg arfaethedig gyda'r contract 'Cytundeb Prosiect';*

(b) *rhoi caniatâd i Gydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i fwrw ymlaen â’r broses gyda WTI - o’r Cynigydd o Ddewis hyd at Gau’n Ariannol, a dyfarnu’r contract.*
(c) *ymrwymo i'r Bartneriaeth a'r prosiect drwy fabwysiadu, ynghyd â’r pedwar Cyngor arall, yr egwyddorion yn yr Ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod sy'n adlewyrchu prif delerau’r Cytundeb Prosiect a fydd yn cael ei sefydlu gan y Cyngor Arweiniol a’r Cynigydd a Ffafrir wrth Ddyfarnu’r Contract.*
(d) *dirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr Arweiniol Sir y Fflint i gwblhau'r Ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod sydd i’w lofnodi gan yr awdurdodau cyfansoddol, ac i ystyried safbwyntiau’r holl awdurdodau cyfansoddol ac i gyfeirio'n ôl at y Cydbwyllgor er mwyn iddynt gymeradwyo unrhyw wyriad o’r egwyddorion y cytunwyd arnynt.*
(e) *cytuno i lofnodi'r Ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod unwaith y bydd wedi ei gwblhau yn unol â'r drefn uchod.*
(f) *cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig ar gyfer prosiect 2013/14 o £595,558, ynghyd â'r gwariant arfaethedig o £321,066 ar gyfer 2014/15, i fynd â'r broses gaffael i'r cam terfynol o Gau’n Ariannol (y ddau fel y nodir yn atodiad 5).*
(g) *dirprwyo awdurdod o ofynion cyllidebol parhaus i'r Cyd-Bwyllgor* PTGGGC*.*

**SESIWN AGORED**

Ar ôl gorffen trafod y materion uchod, parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**12 AMSERLEN Y PWYLLGOR 2014/15, ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION CRAFFU**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a gafodd ei ddosbarthu’n flaenorol) yn gofyn i'r Cyngor wneud penderfyniad ynglŷn â’r nifer o faterion yn ymwneud â threfniadaeth cyfarfodydd y Cyngor Sir.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2014/15 er mwyn gallu cadarnhau mannau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi’r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau. Gan fod y flwyddyn ddinesig newydd yn dechrau ym mis Mai mae hefyd yn briodol i'r Cyngor ystyried newidiadau mewn cydbwysedd gwleidyddol a bod yn ymwybodol o sut mae trefniadau cadeirio Archwilio yn gweithio.

Mynegodd rhai aelodau awgrymiadau y byddai ymestyn yr amserlen i gwmpasu cyfnod hirach yn ddefnyddiol. Cafwyd trafodaeth a chytunwyd y byddai cael amserlen dros gyfnod o 18 mis ar sail dreigl yn well.

Awgrymodd yr Aelodau bod y Pwyllgorau canlynol hefyd yn cael eu cynnwys o fewn yr Amserlen Pwyllgorau:

- Maethu a Mabwysiadu, a
- Rhianta Corfforaethol

***PENDERFYNWYD** bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen ddrafft, a chytunwyd ar y budd o ymestyn yr amserlen i 18 mis ar sail dreigl.*

## 13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd 'Raglen Gwaith i'r Dyfodol' y Cyngor (dosbarthwyd yn flaenorol).

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth i gael ei ychwanegu at RhGD y Cyngor ar gyfer 8 Ebrill 2014.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm.**